

CYMRAEG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**Polisi cenedlaethol ar
drosglwyddo'r Gymraeg a'i
defnydd mewn teuluoedd**

Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd

Cynulleidfa

Pawb sydd am weld y Gymraeg yn cael ei throsglwyddo a'i defnyddio mewn teuluoedd.

Trosolwg

Mae'r polisi cenedlaethol hwn ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn deillio o strategaeth Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017). Ei fwriad yw cynllunio datblygiadau o ran trosglwyddo'r iaith Gymraeg rhwng y cenedlaethau.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-Adran y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: cymraeg@llyw.cymru

 [@Cymraeg](https://twitter.com/Cymraeg)

 [Facebook/Cymraeg](https://www.facebook.com/Cymraeg)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/cymraeg

Dogfennau cysylltiedig

Rhianta yng Nghymru: Strategaethau ar gyfer gweithio gyda thadau (2016); *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* (2017); *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* (2017); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21* (2017); *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd* (2017); *Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth* (2017); *Ymgyrch Gofal Plant yng Nghymru* (2019); *Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant* (2019)

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	2
Cyflwyniad	3
Cyd-destun	5
Pam mae'n bwysig siarad Cymraeg mewn teuluoedd?	5
Beth sydd wedi'i wneud yn barod?	8
Y Gymraeg mewn teuluoedd: y darlun cyfredol	9
Beth sydd y tu hwnt i'r ffigurau?	13
Beth sy'n digwydd mewn gwledydd eraill	14
Cwmpas y Polisi hwn	15
Egwyddorion sy'n sail i'r Polisi hwn	15
Ein rhaglen waith	17

Rhagair gan y Gweinidog

Bydd yr iaith ry'n ni'n ei defnyddio gartref yn effeithio ar ba mor gyfforddus mae'n plant ni yn teimlo wrth ddefnyddio'r iaith honno nes 'mlaen yn eu bywydau. Mae'r Polisi hwn yn cefnogi ac yn annog pobl sydd â sgiliau Cymraeg, ond sydd heb efallai eu defnyddio ers ychydig, i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'u plant, hynny yw i 'drosglwyddo' iaith i'r genhedlaeth nesaf.

Wrth i mi gyhoeddi fersiwn drafft y Polisi hwn yn gynharach eleni, nes i bwysleisio fy mod i am glywed gan y teuluoedd eu hunain—mae'r gwaith y byddwn ni'n ei wneud o ganlyniad i'r Polisi ar eu cyfer nhw wedi'r cwbl. Felly dwi'n falch ein bod wedi gallu clywed eu lleisiau nhw. A ddim jyst clywed, ond gwrando. Mae wastad yn bwysig cael ystod eang o safbwyntiau a barn am yr hyn ry'n ni'n trio ei wneud.

Mae pob cartref yn wahanol. Yn fy achos i ro'n i'n siarad Cymraeg gyda fy mam ond Saesneg gyda fy nhad. Fe es i ymhellach gyda fy mhlant fy hun, a'i gwneud hi'n amod priodas i fy ngŵr ddysgu Cymraeg, a siarad Cymraeg gyda'n plant. Yn ein teulu ni, roedd yr iaith ry'n ni'n ei siarad gyda'n plant yn benderfyniad ymwybodol iawn ond dyw hynny ddim yn wir i bawb; mae ymchwil yn dangos, fel yn achos llawer o agweddau ar fywyd, fod ymddygiad trosglwyddo iaith i raddau helaeth yn dod o'r isymwybod. Mae'r Polisi hwn yn canolbwyntio ar sut i ddylanwadu ar hyn. Wrth gwrs, mae'r iaith ry'n ni'n ei siarad gyda'n plant ni, yn wir pob ymddygiad iaith, yn ganlyniad i lawer o ffactorau. Ry'n ni eisoes yn cymryd camau fel bod mwy o bobl yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r camau hynny, a'r Polisi hwn, yn cyfrannu at un o ddau briif darged Cymraeg 2050: dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

Ry'n ni'n adeiladu ar sylfaen gadarn o waith ry'n ni wedi'i wneud yng Nghymru dros flynyddoedd lawer. Nawr, mae angen inni wthio ffiniau ac arbrofi gyda dulliau newydd o weithio. Ac os na fydd y dulliau newydd hynny'n gweithio, byddwn ni'n dysgu o hynny, ac yn addasu beth ry'n ni'n ei wneud.

Welwn ni mo holl ganlyniadau'n gwaith dros nos. Mae beth ry'n ni'n trio ei wneud yn digwydd dros genedlaethau—dyna holl bwynt y peth! Ond mae'r cam nesaf o'n gwaith i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol o siaradwyr Cymraeg yn y teulu yn dechrau heddiw.



ELUNED MORGAN



Y Gweinidog dros Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

Cyflwyniad

Teulu: Mae'r rhan fwyaf ohonon ni yn dysgu'n geiriau cyntaf ac yn eu siarad drwy wrando a dilyn arferion ein teuluoedd. Yn hanesyddol, y teulu oedd lle'r oedd y rhan fwyaf o bobl yn dysgu'r Gymraeg. Y gyfundrefn addysg sy bellach yn cynhyrchu'r mwyafrif o siaradwyr Cymraeg newydd, ond dydy'r holl siaradwyr Cymraeg newydd hyn ddim o reidrwydd yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant eu hunain nes ymlaen yn eu bywydau.

Mae'n harolwg defnydd iaith ni, *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru*, yn dangos yn glir bod defnyddio'r Gymraeg yn y cartref yn blentyn yn dylanwadu'n gryf ar amllder defnydd o'r Gymraeg pan yn hŷn.¹ Drwy siarad, neu 'drosglwyddo' y Gymraeg i'w plant yn y teulu, gall rhieni/gofalwyr roi sylfaen gadarn i ddatblygiad ieithyddol eu plant.

Mae'r Polisi hwn yn diweddarau'n ffordd ni o ymwneud â throsglwyddo. Mae'n seiliedig ar ymchwil academiaidd, ein profiad o weithio yn y maes, ein sgysiau â sefydliadau partner, unigolion â diddordeb, a phroses ymgynghori ffurfiol a oedd yn cynnwys sgysiau manwl gyda rhieni. Mae modd i chi ddarllen yr ymchwil a'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ar ein gwefan.

Fe ddywedon ni yn *Cymraeg 2050* na fydden ni am reoli ymddygiad pobl yn eu cartrefi, neu orfodi rhieni/gofalwyr i siarad Cymraeg gyda'u plant. Nod y Polisi hwn yn benodol yw galluogi i'r teuluoedd hynny lle mae gallu eisoes i ddefnyddio'r Gymraeg—er efallai nad yw'r gallu hwnnw ar waith—ddefnyddio pa Gymraeg bynnag sydd ganddynt gyda'u plant. Yn ein gwaith ehangach, ry'n ni eisoes yn cymryd camau i alluogi'r teuluoedd hynny lle nad oes gan rieni sgiliau Cymraeg i ddatblygu eu gallu yn yr iaith—fel ein gwaith gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid eraill. Byddwn ni'n parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, dydy'r Polisi hwn ddim yn honni mynd i'r afael â'r maes hwnnw. Yr hyn y mae'n ei wneud yw gosod cynllun gwaith i gynorthwyo'r rhai sydd â gallu yn y Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant, a helpu pobl ddi-hyder, neu'r rhai sydd heb arfer â defnyddio eu Cymraeg, i ddeall bod modd iddyn nhw hefyd siarad Cymraeg â'u plant.

Wrth i fwy o bobl ifanc ddod yn siaradwyr Cymraeg drwy'r system addysg, bydd mwy o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg. Ac felly bydd mwy o gartrefi ag o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg. Pan fydd y 'siaradwyr newydd' hyn yn cael eu plant eu hunain, ry'n ni am iddyn nhw deimlo'n gyfforddus i siarad Cymraeg gyda nhw yn eu cartrefi. Ry'n ni'n llwyr sylweddoli y byddai'n annheg, yn afrealistig ac yn anymarferol i osod y disgwyliad hwn ar y system addysg yn unig. Felly byddwn ni'n gweithio ar draws sectorau, grwpiau oedran, ac yn profi methodolegau ac ymyriadau gwahanol wrth i ni wneud hynny.

Mae angen inni gofio hefyd pa mor 'anniben' y gall natur trosglwyddo rhwng cenedlaethau fod. Mae angen i ni hefyd gofio'r heriau a all godi wrth geisio newid patrymau defnydd iaith sefydledig. Felly mae'n bwysig ein bod ni'n meddwl am y broses fel rhywbeth sy'n fwy na du a gwyn yn unig. Gan fod ein hymchwil ni'n dangos bod modd i drosglwyddo'r Gymraeg—neu, wrth gwrs peidio â throsglwyddo—fod yn ymddygiad isymwybodol, heb ei gynllunio, rhaid i ni gofio nad yw trosglwyddo, neu

¹ Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/160301-welsh-language-use-in-wales-2013-15-cy.pdf>.

beidio â throsglwyddo o reidrwydd yn deillio o benderfyniadau rhesymegol a bwriadol gan rieni. Mae angen i ni ei gwneud hi'n hawdd ac yn naturiol i'r rhai sydd heb efallai ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg am gyfnod, neu sydd ddim yn defnyddio'r Gymraeg am resymau eraill, i'w defnyddio gyda'u plant.

Mae'r Polisi'n sail ar gyfer rhaglen ddeng mlynedd o fentrau a dulliau o gynyddu cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd—ond byddwn ni'n teimlo effaith y Polisi dros lawer mwy na deng mlynedd. Felly ry'n ni wedi'i ddatblygu yn unol ag ysbryd a llythyr Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae'n Polisi ni yn canolbwyntio ar:

- i. Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol.
- ii. Ailgyrnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddi-hyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.
- iii. Cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- iv. Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant.

Bydd llwyddiant ein Polisi yn dibynnu ar bob un ohonon ni'n yn taro cydbwysedd rhwng datblygu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, meithrin partneriaethau llwyddiannus gyda phartneriaid eraill i weithredu'r ymyriadau hynny, a phrofi'r hyn sy'n gweithio, dysgu o'r hyn sy ddim yn gweithio, ac addasu'r hyn ry'n ni'n ei wneud yn unol â hynny.

Cyd-destun

Pam mae'n bwysig siarad Cymraeg mewn teuluoedd?

Ry'n ni am i fwy o bobl siarad Cymraeg gyda'u plant—dyna un o'r prif ddulliau o greu mwy o siaradwyr Cymraeg. Ry'n ni'n gwybod nad yw rhai siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud hynny ar hyn o bryd, neu ddim yn siarad Cymraeg yn y cartref gyda'u plant am resymau eraill. Mae llawer o bobl yn dweud nad yw eu hyder yn eu gallu yn y Gymraeg mor uchel â'u hyder cyfatebol yn y Saesneg. Weithiau, gall hyn fod yn rhwystr rhag defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd ac ry'n ni'n mynd i'r afael â'r ffactor hwn drwy gydol y Polisi hwn.

Mae'r darlun o ran trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn amrywio ledled Cymru. Er enghraifft, ym Mlaenau Gwent mae cyfradd drosglwyddo o 33 y cant i blant rhwng tair a phedair oed mewn cartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, dim ond chwe aelwyd o'r fath sydd yn yr awdurdod lleol hwnnw.² Ar y llaw arall, Gwynedd sy'n cynnwys y nifer fwyaf o blant tair a phedair oed sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg (1,223 o blant). Y gyfradd drosglwyddo ymhlith yr aelwydydd hyn yw 90 y cant.

Ry'n ni'n cydnabod rôl trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd i gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae canran uwch yn ei siarad. Hyd yn oed yn yr ardaloedd hyn, mae angen rhoi sylw manwl i gyfraddau trosglwyddo. Mae gwahaniaeth hefyd ar draws Cymru yn y cyfraddau trosglwyddo wrth gymharu plant tair oed gyda phlant pedair oed yn yr un ardal. Er enghraifft, mewn cartrefi pâr yn Ynys Môn lle mai dim ond un oedolyn sy'n gallu siarad Cymraeg, dim ond 38.1 y cant o blant tair oed a 57.8 y cant o'r plant pedair oed sy'n gallu siarad Cymraeg. Hyd yn oed lle mae'r ddau oedolyn yn siarad Cymraeg, y ffigur cyfatebol ar gyfer plant tair oed yw 76.7 y cant ac 84.2 y cant ar gyfer plant pedair oed.

Mae'r ffigurau hyn yn dod o gyfrifiad 2011. Mae modd gweld dadansoddiad llawn o drosglwyddo ymhob sir yng Nghymru yn ein hymchwil a amlinellwn isod.³

Ry'n ni wedi datblygu'r Polisi hwn fel rhan o'n strategaeth genedlaethol ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*. Cafodd y strategaeth ei chyhoeddi yn 2017.⁴ Fel mae'r teitl yn ei awgrymu, ry'n ni am weld nifer y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi i filiwn erbyn 2050. Yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd gyda ni, sef Cyfrifiad 2011⁵, y nifer a gofnodwyd oedd 562,000.⁶ Mae *Cymraeg 2050* hefyd yn nodi

² Gweler Llywodraeth Cymru, (2017). *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*. Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael ar: <https://llyw.cymru/trosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd>.

³ Llywodraeth Cymru (2017). *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*. Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael ar: <https://llyw.cymru/trosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd>.

⁴ Llywodraeth Cymru (2017), *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru, ar gael ar <https://llyw.cymru/cynlluniau-a-strategaeth-y-gymraeg>. Mae modd gweld *Rhaglen Waith* gyntaf y Strategaeth (2017-2021), y cynlluniau gweithredu ac adroddiadau blynyddol ar <https://llyw.cymru/cynlluniau-a-strategaeth-y-gymraeg>.

⁵ Llywodraeth Cymru (2012), *Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf am yr Iaith Gymraeg*, Ystadegau Cymru (SB118/2012), Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/121211sb1182012cy.pdf>.

⁶ Mae gwybodaeth ystadegol fanwl am y Gymraeg ar gael ar <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language>.

sut ry'n ni'n bwriadu dyblu canran y boblogaeth sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd o 10 i 20 y cant.

Mae Cymraeg 2050 yn canolbwyntio ar dri nod:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol—seilwaith a chyd-destun.

Mae *Rhaglen Waith* Cymraeg 2050 ar gyfer 2017-21 yn cynnwys tri cham gweithredu penodol i gefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Dyma nhw:

- Cydweithio gyda'r prif randdeiliaid i ddatblygu Polisi cenedlaethol sy'n seiliedig ar waith ymchwil diweddar yn amlinellu sut ry'n ni'n bwriadu sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael y cymorth gorau posibl i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.
- Adolygu a mireinio Rhaglen Cymraeg i Blant i sicrhau ein bod yn parhau i roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar rieni/gofalwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch cyflwyno'r Gymraeg i'w plentyn yn y cartref.
- Parhau i weithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod bydwagedd, ymwelwyr iechedd a phartneriaid eraill yn rhannu gwybodaeth am fanteision trosglwyddo'r iaith mor gynnar â phosibl, a bod rhieni newydd a darpar rieni yn deall y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Mae'r Polisi hwn yn gwireddu'r cyntaf o'r tri cham hyn ac yn sail ar gyfer ein gwaith yn y maes hwn am y ddegawd nesaf. Mae'r ddau arall eisoes ar waith. Drwy feithrin dwyieithrwydd cynnar drwy drosglwyddo'r Gymraeg rhwng cenedlaethau, ry'n ni am agor drysau—i brofiadau a safbwyntiau diwylliannol, addysgol a chymunedol newydd. Felly, mae angen i'n gwaith drwy'r Polisi hwn gyd-fynd â'n gwaith arall ar draws meysydd addysg, cefnogaeth i deuluoedd, trechu tlodi a meysydd polisi perthnasol eraill. Wrth gwrs, mae trosglwyddo'r Gymraeg yn helpu mwy o unigolion i fedru'r Gymraeg, ac mae hynny'n sgil ychwanegol iddynt mewn gweithle a fydd yn rhoi gwerth cynyddol ar y fath sgiliau. Mae hyn i gyd yn bwydo i mewn i'n huchelgais nid yn unig i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ond i ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050.

Mae *Cymraeg 2050* yn cynnwys 'taflwybr' ystadegol sy'n dangos sut, yn ein barn ni, y gallai'r Gymraeg newid rhwng nawr a 2050. Mae Siart 2 isod yn rhoi manylion trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn ôl cyfansoddiad ieithyddol cartref y plentyn. Er nad yw cyfrifiad 2021 wedi'i gynnal, mae'r taflwybr hwn yn darogan y bydd cynnydd graddol ond ceidwadol yn y gyfradd drosglwyddo rhwng 2021 a 2031. Mae'r Polisi hwn yn mynd i'r afael â'r gwaith y bydd angen i ni ei wneud gyda theuluoedd i sicrhau bod y cyfraddau trosglwyddo hyn yn cynyddu ymhellach. Mae modd darllen dadansoddiad mwy manwl o ddata'r cyfrifiad a'n hymchwil ar ein gwefan.⁷


Mae toreth wedi'i ysgrifennu am y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif a chyswllt posibl hyn gyda diffyg trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Roedd hefyd newidiadau sylweddol o ran yr economi, diwylliant, cymdeithas a diwydiant yng Nghymru yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Fe wnaeth hyn arwain at newidiadau i'r boblogaeth ac i arferion crefyddol. Cyn y

⁷ Llywodraeth Cymru (2017). *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*. Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael ar: <https://llyw.cymru/trosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd>.

newidiadau hyn, roedd capeli wedi bod yn ganolbwynt cymunedol i'r Gymraeg. Fe wnaeth hyn i gyd gyfrannu at ba mor aml yr oedd y Gymraeg yn cael ei throsglwyddo, a'i defnydd yn fwy cyffredinol. Mae cynyddu trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn un ffordd o fynd i'r afael â heriau ieithyddol heddiw.

Mae llawer o astudiaethau'n pwysleisio bod defnyddio iaith leiafrifol (fel y Gymraeg) yn y cartref yn gallu chwarae rhan allweddol o ran sefydlu pa ddefnydd y bydd rhywun yn ei wneud o'r iaith honno yn nes ymlaen mewn bywyd. Fel y nodwyd eisoes, mae'n harolwg defnydd iaith ni, *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru*, yn dangos yn glir bod defnyddio'r Gymraeg yn y cartref yn blentyn yn dylanwadu'n gryf ar amllder defnydd o'r Gymraeg pan yn hŷn.⁸ Gofynnodd yr Arolwg i'r ymatebwyr nodi ble roedden nhw wedi dysgu'r iaith a hefyd pa mor rhugl roedden nhw. Dangosodd fod 43 y cant o siaradwyr Cymraeg wedi dysgu siarad Cymraeg gartref fel plentyn ifanc, 11 y cant mewn meithrinfa, 25 y cant yn yr ysgol gynradd, 15 y cant yn yr ysgol uwchradd, 1 y cant yn y brifysgol a 5 y cant yn rhywle arall. Mae Siart 1 isod yn dangos sut y disgrifiodd siaradwyr Cymraeg eu rhuglder yn ôl y man lle dysgon nhw y Gymraeg. Mae hefyd yn dangos bod 80 y cant o'r rhai a ddysgodd y Gymraeg gartref yn blentyn ifanc wedi nodi eu bod yn rhugl. Mae hyn yn gostwng i 49 y cant o'r rhai a ddysgodd y Gymraeg yn yr ysgol feithrin, a 26 y cant o'r rhai a ddysgodd Gymraeg yn yr ysgol gynradd.

Siart 1: Rhuglder siaradwyr Cymraeg yn ôl ble y bu iddynt ddysgu siarad Cymraeg (Ffynhonnell: *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15*)




⁸ Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/160301-welsh-language-use-in-wales-2013-15-cy.pdf>.

Mae hyn yn adlewyrchu gwaith un o'r awduron sy'n cael ei ddyfynnu amlaf ym maes cynllunio ieithyddol, Joshua Fishman. Mae Fishman yn dweud mai trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yw congfaen cynllunio ieithyddol cynaliadwy.⁹

Mae Siart 2 isod yn dangos bod canran y plant tair i bedair oed sy'n gallu siarad Cymraeg a oedd yn byw mewn cartrefi gyda dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg wedi aros yr un fath rhwng 2001 a 2011. Roedd canran y plant tair a phedair oed sy'n siarad Cymraeg wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011 ym mhob math arall o gartref, ar wahân i gartrefi un rhiant lle mae un oedolyn yn siarad Cymraeg.

Siart 2: Canran y plant tair a phedair oed sy'n siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad y cartref (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2001)



Beth sydd wedi'i wneud yn barod?

Mae llawer o waith wedi'i wneud i helpu teuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'u plant. Nod prosiect *Twf*, a oedd ar waith rhwng 2001 a 2016, oedd codi ymwybyddiaeth ymhlith teuluoedd o fanteision magu plant yn ddwyieithog a chael dylanwad cadarnhaol ar eu defnydd o'r Gymraeg.¹⁰ Roedd *Twf* yn cael ei ariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg tan 2012, pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y prosiect i Lywodraeth Cymru.

Dechreuodd *Cymraeg i Blant*¹¹, olynnydd *Twf*, yn 2016. Ei nod yw cynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg, felly hefyd i gefnogi rhieni/gofalwyr, darpar rieni/gofalwyr ac aelodau eraill o'r teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref a throsglwyddo'r Gymraeg i'w plant.

⁹ Gweler, ymhlith llawer o'i weithiau eraill, Fishman, J.A., (1991). *Reversing language shift: Theoretical and empirical foundations of assistance to threatened languages*. Multilingual Matters, Clevedon.

¹⁰ Mae gwefan *Twf* wedi'i harchifo yma:

<https://www.webarchive.org.uk/wayback/en/archive/20120328000759/http://www.twfcymru.com/Cymraeg/Tudalennau/cartref.aspx>.

¹¹ Mae modd gweld gwefan *Cymraeg i Blant* ar: <https://llyw.cymru/cymraeg-i-blant>.

Mae gwerthusiadau annibynnol o *Twf*¹² a *Cymraeg i Blant*¹³ wedi eu cyhoeddi. Ry'n ni wedi ystyried eu canfyddiadau'n llawn wrth ddrafftio'r Polisi hwn. Nododd gwerthusiad diweddaraf *Twf* pa mor anodd oedd ynysu effaith uniongyrchol y prosiect o ffactorau cymdeithasol eraill a all effeithio ar ddewisiadau ac ymddygiad ieithyddol unigolion. Dangosodd hefyd y gallai *Twf* gael effaith ar ddewisiadau rhieni o ran iaith. Fodd bynnag yn gyffredinol, atgyfnerthu penderfyniad a oedd eisoes wedi'i wneud i drosglwyddo'r Gymraeg yr oedd *Twf* yn ei wneud, yn ôl y gwerthusiad.

Yn ogystal â'r rhaglenni hyn, mae rhaglen *Camau*¹⁴ y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig hyfforddiant i ymarferwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant ac mae'n gweithio ar ddatblygu'r Gymraeg ymysg y sectorau hyn. Er nad yw *Camau'n* canolbwyntio ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd, mae'n cyfrannu at amcanion y Polisi hwn drwy ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith ymarferwyr.

Y Gymraeg mewn teuluoedd: y darlun cyfredol

Mae'r cyfrifiad yn ddull o fesur cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Mae'r wybodaeth ystadegol yn y Polisi hwn yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd drwy gyfrifiad 2001 a chyfrifiad 2011 am nifer y plant tair a phedair oed sy'n siarad Cymraeg, yn ôl cyfansoddiad ieithyddol y cartref. Drwy ddewis y grŵp oedran hwn, ein tybiaeth yw na fydd y plant wedi bod o dan ddylanwad sylweddol y gyfundrefn addysg. Mae hyn yn ein galluogi i gael brasamcan ar allu ieithyddol ar sail trosglwyddo yn y cartref yn unig.


Dangosir y newid yn **niferoedd** y plant sy'n siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad y cartref yn Siart 3.

¹² Mae pennod 2 o'n hadroddiad a gyhoeddwyd yn 2017, *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*, yn adolygu'r adroddiadau a wnaethpwyd ar raglen *Twf*. Llywodraeth Cymru, (2017). *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*. Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael ar: <https://llyw.cymru/trosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd>.

¹³ Llywodraeth Cymru (2019). *Gwerthusiad proses Cymraeg i Blant: adroddiad terfynol*. Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael ar: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-proses-or-rhaglen-cymraeg-i-blant-adroddiad-terfynol>.

¹⁴ Gweler <https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/camau-1/>.


Siart 3: Nifer y plant tair a phedair oed sy'n siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad y cartref (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2001)



Er bod Siart 2 yn dangos bod **canran** y plant o gartrefi un rhiant lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg wedi gostwng, dengys Siart 3 fod y **nifer** wedi cynyddu. Y rheswm dros hyn yw'r cynnydd yng nghyfanswm nifer y cartrefi un rhiant lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg ac a oedd â phlentyn tair neu bedair oed. Mae Siart 3 hefyd yn dangos bod llai o blant tair a phedair oed yn siarad Cymraeg o gartrefi cwpl lle gallai dau oedolyn neu fwy siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011, ond bod mwy o siaradwyr Cymraeg o'r mathau eraill o gartrefi lle roedd oedolyn a allai siarad Cymraeg yn y cartref.

Mae'r siartiau isod yn dangos sut mae cyfansoddiad cartrefi siaradwyr Cymraeg tair a phedair oed wedi newid rhwng 2001 a 2011.

Siart 4: Cyfansoddiad cartrefi pob plentyn tair neu bedair oed sy'n siarad Cymraeg yn 2001 a 2011 (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, Cyfrifiad 2011)



Mae'r siartiau hyn yn dangos bod canran is o'r plant sy'n siarad Cymraeg mewn cartrefi pâr lle gallai dau oedolyn neu fwy siarad Cymraeg yn 2011 (22%) o gymharu gyda 2001 (29%), ac mewn cartrefi un rhiant lle mae oedolyn yn siarad Cymraeg (9% yn 2001 a 7% yn 2011).

Mae hyn yn golygu y bydd mwy o blant yn cael eu magu ar aelwydydd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg. Gall hyn arwain at lai o ddefnydd anffurfiol o'r iaith yn y cartref heb fod camau ar waith i helpu teuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Wrth i weithredoedd *Cymraeg 2050* gymryd effaith, ry'n ni'n rhagweld y bydd nifer a chanran y cartrefi sydd ag o leiaf un oedolyn a all siarad Cymraeg yn cynyddu. Nod y Polisi hwn yw helpu'r teuluoedd hyn i ddatblygu ac ehangu eu defnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd.


Wrth edrych ar ganlyniadau cyfrifiad 2011, ry'n ni hefyd yn gallu gwahaniaethu rhwng plant tair a phedair oed. Mae'r tabl yn dangos bod cynnydd sylweddol yng nghanran y plant sy'n siarad Cymraeg rhwng tair a phedair oed, a hynny ym mhob math o gartref. Gallai hyn fod oherwydd dylanwadau allanol eraill (meithrinfa, gofal plant ac ati) lle gallai'r plant ddysgu Cymraeg, ond gallai hefyd ddeillio o dreulio mwy o amser yn dysgu'r Gymraeg gartref.

Tabl 1: Canran y plant tair neu bedair oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad y cartref (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011)

	Canran y plant tair oed sy'n gallu siarad Cymraeg	Canran y plant pedair oed sy'n gallu siarad Cymraeg	Canran y plant tair a phedair oed sy'n gallu siarad Cymraeg
Cartref pâr—dau oedolyn neu fwy yn gallu siarad Cymraeg	78%	87%	82%
Cartref rhiant unigol—un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	45%	61%	53%
Cartref pâr—un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	38%	53%	45%
Pob cartref ag o leiaf un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	51%	65%	58%
Cartrefi pâr a rhiant unigol heb oedolyn yn gallu siarad Cymraeg	9%	18%	14%

Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn casglu gwybodaeth am allu plant i siarad Cymraeg, ac a ydyn nhw'n siarad Cymraeg gartref ai peidio. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer plant pump oed ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd. Dyma'r plant a fyddai, fel arfer, yn y dosbarth Derbyn.

Siart 5: Canran y plant pump oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref (Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion)



Mae'r siart yn dangos bod canran y plant pump oed sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref yn amrywio ychydig bob blwyddyn, ond prin ei fod wedi newid ers 2004; mae'n parhau i fod oddeutu 6-7%.

Yn fwy diweddar, yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19, cafodd cwestiynau eu cynnwys am allu pobl i siarad Cymraeg, a ble roeddent wedi dysgu'r iaith, er mwyn darparu gwybodaeth fwy cyfredol am drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Canfu'r arolwg:

- Fod 43% o siaradwyr Cymraeg wedi dysgu siarad Cymraeg gartref fel plentyn ifanc
- Dywedodd 75% o'r rhai a ddysgodd siarad Cymraeg gartref eu bod yn rhugl, o gymharu â 6% a ddysgodd Gymraeg yn yr ysgol uwchradd
- Lle'r oedd rhiant wedi dysgu siarad Cymraeg gartref fel plentyn ifanc, dysgodd 82% o'u plant hefyd i siarad Cymraeg gartref
- Y rhieni Cymraeg eu hiaith oedd fwyaf tebygol o drosglwyddo'r iaith i'w plant, oedd y rhai a oedd:
 - wedi dysgu siarad Cymraeg gartref
 - yn rhugl yn y Gymraeg
 - wedi cael mwy nag un plentyn
 - byw yng ngogledd-orllewin Cymru
 - yn fenywod
 - ag incwm uchel.

Mae gyda ni ystadegau helaeth sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Mae angen i ni gyplysu'r rhain gyda darlun ansoddol mwy cyflawn o ddefnydd iaith *in situ* mewn teuluoedd ac, yn fwy pwysig, beth mae modd ei wneud i gynyddu'r defnydd hwn. Ry'n ni'n trafod ymchwil ym myd trosglwyddo iaith yn nes ymlaen yn y Polisi hwn.

Beth sydd y tu hwnt i'r ffigurau?

Ry'n ni eisoes wedi cyhoeddi ymchwil i drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. Fe wnaethon ni ei chomisiynu er mwyn i ni ddeall yn well pa bethau allai ddylanwadu ar y ffordd y mae rhieni/gofalwyr yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Mae modd i chi ddarllen yr adroddiad llawn ar ein gwefan.¹⁵

Mae'r ymchwil wedi'i seilio ar ddata gwreiddiol am blant 0-4 oed a gafwyd oddi wrth 60 o rieni/gofalwyr (roedd pob un o'r rhain â rhyw lefel o allu yn y Gymraeg). Mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata'r cyfrifiad ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Ry'n ni'n adlewyrchu canfyddiadau'r ymchwil yn y Polisi hwn.

Canfyddiad yr ymchwil oedd nad penderfyniad yw trosglwyddo'r Gymraeg. Yn hytrach, ymddygiad anymwybodol ydyw. I lawer o bobl, y Gymraeg oedd y brif iaith roedden nhw'n ei defnyddio gyda'u plant drwy'r amser. Doedden nhw ddim wedi ystyried eu hymddygiad ieithyddol rhyw lawer. Roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw yn dod o deuluoedd Cymraeg eu hiaith, roedd ganddyn nhw bartneriaid Cymraeg eu hiaith, ac roedden nhw'n dweud eu bod yn hyderus wrth siarad Cymraeg. Fodd bynnag, doedd mwyafrif yr ymatebwyr Cymraeg eu hiaith a oedd yn dod o gartrefi di-Gymraeg (y rhan fwyaf ohonyn nhw o dde ddwyrain Cymru) wedi ystyried siarad Cymraeg gyda'u plant. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg eu hunain a nodi, wrth edrych yn ôl ar eu dyddiau ysgol, nad oedden nhw'n siarad Cymraeg yn aml y tu allan i'r ystafell ddisbarth. Mewn rhai achosion, roedd ganddyn nhw agweddau negyddol tuag at y Gymraeg.

Roedd y rhan fwyaf yn nodi eu bod nhw wedi trafod addysg Gymraeg gyda'u partner (os oedd partner ganddyn nhw) am eu bod nhw'n sicr eu bod nhw am i'w plentyn/plant allu siarad Cymraeg. Cafwyd llawer o sôn eu bod nhw wedi trafod addysg Cymraeg cyn genedigaeth y plentyn. Mewn llawer o achosion, wrth ateb y cwestiynau ynghylch trosglwyddo iaith, roedden nhw'n cyfeirio at *addysg* cyfrwng Cymraeg yn hytrach na defnyddio'r Gymraeg yn y cartref. Mae'r adroddiad yn defnyddio *rhoddi* iaith yn hytrach na *throsoglwyddo* iaith i ddisgrifio hyn.

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2017). *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*. Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael ar: <https://llyw.cymru/trosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd>. Wrth lunio'r Polisi hwn, ry'n ni hefyd wedi ailedrych ar ymchwil ar y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr iaith Gymraeg (*Trosglwyddo iaith Mewn Teuluoedd Dwyieithog: Adroddiad ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gan Fwrdd yr iaith Gymraeg gan Virginia C. Mueller Gathercole, Enlli Môn Thomas*. Caerdydd, Bwrdd yr iaith Gymraeg. Ar gael ar: <https://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120328022157/http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Pages/PublicationItem.aspx?puburl=/Cymraeg%2fcyhoeddiadau%2fCyhoeddiadau%2fAdroddiad+Gathercole+Cymraeg+9.2.07.pdf>).

Wrth i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol, roedd llawer o ymatebwyr wedi cnoi cil ar eu defnydd nhw eu hunain o'r iaith. Er hyn, doedden nhw ddim yn teimlo'n ddigon hyderus i'w defnyddio oherwydd diffyg ymarfer ers gadael yr ysgol. I raddau llai, roedd ganddyn nhw hefyd agweddau negyddol tuag at eu 'math' o Gymraeg ac yn nodi diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Beth sy'n digwydd mewn gwledydd eraill

Fedrwn ni ddim gweithio ar ein pen ein hunain. Mae cymunedau ieithyddol eraill wedi wynebu heriau tebyg o ran trosglwyddo iaith mewn teuluoedd. Mae'r ymchwil wnaethon ni ei chomisiynu yn adolygu hyn. Ond, yn ein profiad ni, mae mwy o wybodaeth ar gael sy'n dadansoddi'r *sefyllfa* o ran trosglwyddo iaith mewn teuluoedd nag am brosiectau a champau ymarferol a gymerwyd i *gynyddu* trosglwyddo iaith (a'r gwersi a ddysgwyd o hynny). Byddwn ni'n sicrhau bod ein hymchwil yn bwydo i mewn i gamau gweithredu a phrosiectau pendant sy'n gallu cynorthwyo rhieni/gofalwyr i drosglwyddo, yn hytrach na rhoddi, ieithoedd i'w plant.

Yn ein holl waith ar y Polisi hwn, byddwn ni'n gweithio gyda'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD), a Grŵp Ieithoedd Cynhenid, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, a hynny er mwyn dod â dimensiwn rhyngwladol i waith trosglwyddo'n holl ieithoedd mewn teuluoedd.

Cwmpas y Polisi hwn

Weithiau mae pobl yn drysu trosglwyddo'r Gymraeg ag annog rhieni i ddewis addysg Gymraeg. Fel ry'n ni eisoes wedi'i ddweud, ry'n ni'n gwybod bod gan addysg ran hollbwysig i'w chwarae yn y gwaith o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Ry'n ni'n cymryd camau i drawsnewid y gyfundrefn addysg i gefnogi amcanion *Cymraeg 2050*. Mae manylion pellach ein cynlluniau ar gyfer y byd addysg ar gael mewn dogfennau eraill.¹⁶

Ond dim ond rhan o'r darlun yw addysg. Wrth reswm mae addysg yn cyfrannu at ddatblygiad ieithyddol plentyn, ond dydy'r Polisi hwn ddim yn mynd i'r afael â hynny, marchnata addysg Gymraeg, na chynyddu niferoedd y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg mewn ysgolion. Mae'n ymdrin â defnydd gweithredol o'r Gymraeg rhwng rhieni/gofalwyr a'u plant. Bydd cynnydd yn y defnydd hwnnw yn un o ddangosyddion allweddol llwyddiant y Polisi hwn.

Egwyddorion sy'n sail i'r Polisi hwn

Mae'r egwyddorion canlynol wedi llywio sut ry'n ni wedi drafftio'r Polisi hwn. Byddan nhw'n sylfaen i'r holl waith y byddwn ni'n ei wneud i gynyddu trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd.

- Mae plant yn unigolion. Maen nhw am wneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain. Maen nhw'n fwy na derbynwyr goddefol iaith gan rieni/gofalwyr. Mae modd i blant fynegi eu dewisiadau ieithyddol eu hunain ac felly ceisio dylanwadu ar yr iaith y bydd eu rhieni/gofalwyr yn ei defnyddio gyda nhw yn ogystal ag ar ba iaith maen nhw'n ei defnyddio gyda'u brodyr a'u chwiorydd a'u ffrindiau.
- Byddwn ni'n gwrando ar lais y plentyn ac yn ystyried ei safbwynt wrth gynllunio a gweithredu popeth y byddwn ni'n ei wneud.
- Mae negeseuon yn elfen bwysig o unrhyw ymyriad mewn unrhyw faes, ond mae'n bwysig cofio nad dyma, o reidrwydd, yw'r holl ymyriad.
- Lle ry'n ni'n defnyddio negeseuon, byddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n siarad ag un llais ar draws ein holl waith a'n bod ni'n seilio hyn ar strategaeth eiriol gyffredin.
- Mae technoleg a'r rhyngwyd wedi trawsnewid sut ry'n ni'n cyfathrebu. Mae hefyd wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae plant yn chwarae. Bydd ein gwaith ym maes trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn archwilio sut y gallai technoleg gyfrannu at chwarae plant yn Gymraeg.
- Mae llawer o'r gwaith ym maes polisi iaith y teulu wedi digwydd mewn teuluoedd dau riant, heterorywiol. Wrth i ni gynllunio'n gwaith a'i roi ar waith, byddwn ni'n ystyried ystod gyflawn y mathau o deuluoedd sy'n bodoli, e.e. mae llawer o blant erbyn hyn yn byw mewn teuluoedd un riant a/neu mewn teuluoedd lle mae rhieni/gofalwyr yn perthyn i grwpiau LGBTQI.
- Byddwn ni'n ystyried sut mae defnyddio cyfraniad rhwydweithiau teuluol ehangach y tu hwnt i'r rhieni/gofalwyr wrth gefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd.

¹⁶ Gweler, er enghraifft, ein dogfen *Cymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017 i 2021*, ar gael ar <https://lyw.cymru/cymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017-i-2021>.

- Byddwn ni'n ystyried y cydbwysedd rhwng dylanwad y cartref, y teulu ehangach, y gymuned, dylanwadau cymdeithasol allanol a newidiadau bywyd ar drosglwyddo. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys adeg o newid ein bywydau megis geni plant, dechrau, newid neu adael yr ysgol ac yn y blaen. Mae rhai darnau o lenyddiaeth cynllunio ieithyddol yn galw'r adegau hyn o newid yn 'mudes' ieithyddol.¹⁷
- Ry'n ni wedi seilio'r Polisi hwn ar ymchwil i'r ffactorau a allai ddylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Ry'n ni'n gwybod y gallai fod yn anodd priodoli newidiadau o ran trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn uniongyrchol i un darn penodol o waith, felly byddwn ni'n gwerthuso popeth ry'n ni'n ei wneud yn rheolaidd. Byddwn ni'n cynllunio ymlaen llaw gan ddefnyddio theorïau newid er mwyn deall yn well sut i fynd o ble ry'n ni heddiw i ble ry'n ni am fod. Bydd hyn yn helpu pawb i wybod ymlaen llaw beth yw'r 'llwyddiant' ry'n ni am ei weld. Ac os na fydd beth ry'n ni'n ei wneud yn gweithio, byddwn ni'n ei addasu, neu byddwn ni'n dod o hyd i ffordd well o helpu teuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg.
- Bydd yr holl ymyriadau ry'n ni'n eu datblygu drwy'r Polisi hwn yn seiliedig ar wyddoniaeth ymddygiadol a methodolegau perthnasol eraill. Byddan nhw'n ystyried realiti bywyd teuluol o ran y dulliau a ddefnyddir ac amseru a thargedu'r ymyriadau hyn.
- Byddwn ni'n sicrhau bod data a sail ymchwil gadarn wrth galon ein gwaith.
- Bydd pob ymyriad yn defnyddio dull 'iterol' (iterative) lle byddwn ni'n anelu at ddarganfod yn gyflym beth sy'n llwyddiannus a beth sydd ddim, lle ry'n ni'n disgwyl i bethau fethu, yn dysgu gwersi o'r methiannau hynny ac yn dogfennu sut i gryfhau gwaith yn y dyfodol.
- Byddwn ni'n canolbwyntio ar sicrhau bod plant yn cael profiadau Cymraeg cadarnhaol, a hynny gyda'r nod bod y profiadau hynny'n dylanwadu ar eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol a'u hymddygiad ieithyddol yn ddiweddarach mewn bywyd.

¹⁷ Gweler, ymhlith eraill, Pujolar, J. & Puigdevall, M. (2014)-"Linguistic *mudes*: how to become a new speaker in Catalonia"; *International Journal of the Sociology of Language*, 231; <https://doi.org/10.1515/ijsl-2014-0037>

Ein rhaglen waith

Mae'r Polisi hwn yn cynnig ffordd ymlaen i gynyddu faint o Gymraeg mae rhieni/gofalwyr Cymru yn ei defnyddio gyda'u plant. Ry'n ni eisoes wedi nodi, am sawl rheswm, nad yw pob siaradwr Cymraeg yn defnyddio'r iaith gyda'u plant drwy'r amser. Mae'n hymchwil ni wedi cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn, ac mae'r adran sy'n dilyn yn troi'r ddealltwriaeth honno yn gamau gweithredu pendant.

Mae cynnal a chynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn bwysig, ond mae sicrhau bod yr iaith yn cael ei defnyddio yn hanfodol. Mae'n hollbwysig bod pawb sy'n siarad Cymraeg, ym mha fath bynnag o gartref maen nhw'n byw, yn teimlo eu bod nhw'n gallu trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Mae hynny'n golygu helpu pobl i newid eu hymddygiad. Mae hynny yn ei dro yn golygu ailfeddwl rhywfaint o'n gwaith. Mae'r Polisi hwn wedi'i seilio ar y canlynol:

- Ymchwil a gwerthuso ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd, gennym ni ac eraill;¹⁸
- Ein sgysiau gyda phobl sy'n gweithio ym maes trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd yng Nghymru;
- Ein gwaith gyda theuluoedd a sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd.

Mae angen i ni fod yn ddi-flewyn ar dafod ynglŷn â'r her o ynysu *union* effaith ein darnau gwahanol o waith. Mae angen i ni gydnabod y gallai gymryd peth amser i rai canlyniadau ddod i'r amlwg. Byddwn ni'n defnyddio'r dulliau diweddaraf i fesur cynnydd ein gwaith er mwyn dangos a ydyn ni ar y trywydd iawn. Gallai ymyriadau gwahanol weithio'n wahanol mewn gwahanol leoedd a chyda gwahanol grwpiau targed. Byddwn ni'n teilwra'n gwaith yn unol â hynny. Ac os na fydd beth ry'n ni'n ei wneud yn gweithio, byddwn ni'n ei addasu, neu byddwn ni'n dod o hyd i ffordd well o helpu teuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg.

Mae gan y Polisi hwn bedwar nod cyffredinol. Dyma nhw:

- i. Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol.
- ii. Ailgyrnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddi-hyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.
- iii. Cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- iv. Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant.

Yn y rhestr isod, ry'n ni'n nodi'r camau y byddwn ni'n eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn. Bydd rhai camau'n cyfrannu at fwy nag un amcan; ry'n ni'n nodi hyn yn y tabl. Ry'n ni hefyd yn nodi llinell amser ar gyfer gweithredu'r camau hynny.

¹⁸ Gweler, er enghraifft, Rwydwaith REVITALISE (2018), *Adroddiad Briffio Gweithdy 2 Thema'r gweithdy: Adfywio iaith a thrawsnewidiad bywyd teuluol*. Ar gael ar: <http://revitalise.aber.ac.uk/en/media/non-au/revitalise/Adfywio---Adroddiad-Gweithdy-2---TERFYNOL.pdf>.

Camau	Er mwyn cyfrannu at amcan polisi	Gan ddechrau o
<p>1. Er mwyn rheoli'r gwaith y byddwn ni'n ei wneud fel rhan o'r Polisi, byddwn ni'n sefydlu bwrdd rhaglen. Bydd gan ei aelodau amrywiaeth o safbwyntiau ar ymyriadau cymorth i deuluoedd. Byddwn ni'n cynnwys rhanddeiliaid eraill ar y bwrdd hwn i'n cynghori, i'n cynorthwyo ac i'n herio. Byddwn ni'n defnyddio'r bwrdd hwn nid yn unig i adolygu'n rheolaidd yr hyn ry'n ni'n ei wneud, ond hefyd yr hyn <i>ry'n ni'n ei gyflawni</i>. Ac os nad ydyn ni'n cyflawni, byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n dysgu o hynny ac yn addasu'r hyn ry'n ni'n ei wneud yn unol â hynny.</p>	<p>i, ii, iii, iv.</p>	<p>2021</p>
<p>2. Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru yn cyrraedd miloedd o deuluoedd o bob math ar draws llawer o sectorau. Byddwn ni'n dadansoddi'r cyfleoedd mae'r pwytiau cyffwrdd hyn yn eu cynnig i gefnogi nodau'r Polisi hwn.</p>	<p>i, ii, iii, iv.</p>	<p>2021</p>
<p>3. Byddwn ni'n dadansoddi ymyriadau ym maes trosglwyddo iaith ac yn ystyried sut gall gwersi a ddysgwyd mewn rhannau eraill o'r byd gael eu rhoi ar waith yng Nghymru. Byddwn ni'n gweithio gyda'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD), a grŵp ieithoedd cynhenid lleiafrifol a llai eu defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, ac unrhyw rwydweithiau perthnasol eraill.</p>	<p>i, ii, iii, iv.</p>	<p>2021</p>
<p>4. Byddwn ni'n edrych ar waith a wnaed gyda theuluoedd mewn meysydd eraill.</p>	<p>i, ii, iii, iv.</p>	<p>2021</p>

Camau	Er mwyn cyfrannu at amcan polisi	Gan ddechrau o
<p>5. Byddwn yn dadansoddi sut ry'n ni'n cyfathrebu â theuluoedd a'u haelodau estynedig (y tu hwnt i'r rhoddwyr gofal uniongyrchol) am eu defnydd o'r Gymraeg gyda'r nod o gynnal a chynyddu trosglwyddo'r Gymraeg. Gallai hyn olygu edrych ar ba sianeli ry'n ni'n eu defnyddio, y ffordd ry'n ni'n eu defnyddio yn ogystal â pha unigolion y mae'r sianeli hyn yn eu targedu.</p>	<p>ii, iii, iv.</p>	<p>2021</p>
<p>6. Byddwn ni'n rhoi cyngor a/neu dechnegau ymarferol i deuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg ar sut i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ym mhob math o sefyllfa deuluol.</p>	<p>iii.</p>	<p>2021</p>
<p>7. Byddwn ni'n creu prosiectau newydd gan adeiladu ar ein gwaith cyfredol i gefnogi trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. Byddan nhw'n defnyddio'r technegau diweddaraf i newid ymddygiad. Ymhlith eraill, byddan nhw'n cefnogi pobl a fydd, efallai, heb ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ers eu dyddiau ysgol i siarad Cymraeg gyda'u plant. Mae'n bosibl y byddwn ni'n seilio'r rhain ar anghenion ardaloedd daearyddol penodol, cynulleidfaoedd targed a/neu rwydweithiau cymdeithasol rhieni/gofalwyr (rhai wyneb yn wyneb neu rithwir) a byddwn ni'n ystyried demograffeg yr ardaloedd hyn.</p>	<p>i, ii, iii, iv.</p>	<p>2023</p>

Camau	Er mwyn cyfrannu at amcan polisi	Gan ddechrau o
8. Byddwn ni'n sicrhau bod cyngor ar gael i rieni/gofalwyr ar yr hyn y gallan nhw ei wneud pan fydd eu plant yn ddihyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg neu efallai yn amharod i'w defnyddio am resymau eraill. Gallai hyn gynnwys ymyriadau wedi'u targedu drwy'r sectorau iechyd, gofal plant, addysg neu systemau ac eraill, a gellid eu darparu ar adegau penodol o newid bywyd, neu 'mudes' ieithyddol fel ry'n ni'n cyfeirio atynt uchod.	i, iii, iv.	2023
9. I'r rhieni hynny sydd heb ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ers peth amser, byddwn ni'n treialu rhaglen adduned defnydd iaith. Gallai hyn adeiladu ar lwyddiannau prosiect iaith Basgeg o'r enw <i>Euskaraldia</i> . Byddwn ni'n dechrau ar raddfa fechan gyda rhieni/gofalwyr o wahanol gefndiroedd ieithyddol.	ii, iii, iv.	2023
10. Byddwn ni'n archwilio cyfleoedd am gefnogaeth rhwng cymheiriaid sy'n rhieni/gofalwyr fel y gallan nhw helpu ei gilydd i gynyddu faint o Gymraeg maen nhw'n ei defnyddio yn eu teuluoedd.	i, ii, iii, iv.	2023
11. Byddwn ni'n creu prosiectau i ddefnyddio rhwydweithiau rhieni/gofalwyr o amgylch ysgolion i helpu teuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'u plant.	i, ii, iii, iv.	2023
12. Byddwn ni'n rhoi'r sgiliau a'r adnoddau dysgu i weithwyr proffesiynol i'w helpu i annog plant mewn modd cadarnhaol i siarad Cymraeg â'i gilydd. Nod y rhain fydd helpu plant i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, yn nes ymlaen yn eu bywydau, wedi eu grymuso i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, waeth beth yw eu cefndir ieithyddol teuluol.	i.	2023

Camau	Er mwyn cyfrannu at amcan polisi	Gan ddechrau o
13. Byddwn ni'n defnyddio'r cyfleoedd mae'r gweithle yn eu cynnig i gynyddu defnydd unigolion o'r Gymraeg ac archwilio pa botensial sydd i hyn orlifo i ddefnydd o'r Gymraeg yn y teulu. Byddwn ni'n ystyried sut mae modd teilwra'r gwaith hwn i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau demograffig.	ii.	2023
14. Byddwn ni'n sicrhau bod cyrsiau Cymraeg i oedolion yn atgyfnerthu nodau'r Polisi hwn , ac yn edrych ar ddulliau o ddatblygu'r sgiliau penodol sy'n angenrheidiol i ddefnyddio'r Gymraeg gyda phlentyn. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i rieni a addysgwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, ond a fagwyd mewn cartrefi di-Gymraeg.	i, ii, iii.	2023
15. Byddwn ni'n edrych ar dechnegau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill i ddatblygu pendantrwydd a hyder pobl wrth ddefnyddio ieithoedd a, lle bo prawf eu bod nhw'n llwyddiannus, byddwn ni'n eu plethu i'n gwaith gyda theuluoedd.	i, ii, iii, iv.	2025
16. Byddwn ni'n datblygu presenoldeb ar-lein i gynorthwyo rhieni/gofalwyr a allai, ond am ba reswm bynnag, nad ydynt, yn siarad Cymraeg gyda'u plant. Byddai hyn yn gallu golygu helpu rhieni sydd heb unrhyw brofiad personol o fagu plentyn mewn cartref lle mae mwy nag un iaith yn cael ei siarad i wneud hynny (e.e. eu helpu i ddysgu sut yn union mae cyfeirio iaith at blentyn).	ii, iii.	2025
17. Byddwn ni'n ymchwilio i'r cyfleoedd y mae gemau, technoleg arall, a chwarae corfforol , yn eu cynnig i helpu plant i ddefnyddio mwy o Gymraeg a sut y gall hynny yn ei dro gynnig cyfleoedd i helpu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd.	i.	2025

Camau	Er mwyn cyfrannu at amcan polisi	Gan ddechrau o
<p>18. Byddwn ni'n rhoi camau gweithredu penodol ar waith ar gyfer pobl anabl a'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol, namau neu gyflyrau iechyd i'w helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'u teulu. Byddwn ni hefyd yn sicrhau bod y bobl hyn a'u teuluoedd ynghanol ein holl waith.</p>	<p>i, ii, iii, iv.</p>	<p>Parhaus</p>
<p>19. Byddwn ni'n adolygu ein gwaith cyfredol ac yn edrych ar ymyriadau'r gorffennol ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd ac yn sicrhau ein bod ni'n seilio'r hyn ry'n ni'n ei wneud ar dystiolaeth o'r gwyddorau ymddygiadol a theori newid gadarn. Byddwn ni'n bwydo'r hyn ry'n ni'n ei ddysgu o'r adolygu hwn i ymyriadau peilot. Byddwn ni'n dysgu o'r peilotau yma ac os na fyddan nhw'n gweithio, byddwn ni'n eu newid neu'n dod o hyd i ffordd well o helpu teuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg.</p>	<p>ii, iii, iv.</p>	<p>Parhaus</p>
<p>20. Pan fyddwn ni'n comisiynu prosiectau ymchwil ar y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd, byddwn ni'n ystyried sut y gallan nhw archwilio dylanwad cyfansoddiad ieithyddol aelwydydd ar y defnydd hwnnw.</p>	<p>i, ii, iii, iv.</p>	<p>Parhaus</p>
<p>21. Pan fyddwn ni'n comisiynu prosiectau ymchwil ar y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd, byddwn ni'n ystyried sut gallan nhw archwilio rôl rhieni/gofalwyr, a'u rhwydweithiau teulu ehangach ar y defnydd o'r Gymraeg a'r rhan y mae'r plant eu hunain yn ei chwarae. Gallai hyn gynnwys trosglwyddo'r Gymraeg o safbwynt y plentyn.</p>	<p>i, ii, iii, iv.</p>	<p>Parhaus</p>

Camau	Er mwyn cyfrannu at amcan polisi	Gan ddechrau o
22. Pan fyddwn ni'n comisiynu prosiectau ymchwil ar y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd, byddwn ni'n ystyried sut gallan nhw astudio datblygiad iaith plant yng nghydestun dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg yn y cartref . Bydd hyn yn cynnwys sut maen nhw'n caffael gramadeg, geirfa a ffonoleg.	iii, iv.	Parhaus
23. Pan fyddwn ni'n comisiynu prosiectau ymchwil ar y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd, byddwn ni'n ystyried defnyddio ymchwil arsylwi a gweithredu (ymhlith dulliau eraill) i wella'n dealltwriaeth o drosglwyddo iaith mewn teuluoedd.	iii, iv.	Parhaus
24. Lle bo'n briodol, byddwn ni'n cynnwys cwestiynau ymchwil ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i mewn teuluoedd mewn arolygon ry'n ni'n eu cynnal.	i, ii, iii, iv.	Parhaus